

# TOCIO A SIAPIO

## GYDA CHRIS CREED

**FFEITHLEN CALU**  
Mehefin 2011  
Cyf: 020802



**Coed** Fel arfer, bydd y cyhoedd yn gofyn am goeden hirgyff (tal) neu hanner tal.

Dyma'r goeden ar ffurf lolipop rydyn ni'n gyfarwydd â hi. Er mwyn cynhyrchu coeden hirgyff, mae angen torri'r goeden flwydd neu wryfol ar uchder yr ên - botwm ucha'ch crys oedd y peth arferol. Bydd hyn yn ysgogi canghennu a gellir dethol 5 cangen ochrol sy'n eithaf gwastad ac sy'n tyfu'n gymen o gwmpas y goeden. Os nad yw'r goeden yn gwerthu yn ystod y flwyddyn gyntaf tociwch hi eto yn yr hydref, gan geisio cadw canol y goeden yn agored. Y ffordd orau o wneud hyn yw dychmygu digon o le yn y canol i osod bwced.

Dylid dilyn yr un broses ar gyfer coeden hanner tal, ond dechreuwch yn is gyda'r gangen isaf ar lefel bwcl eich gwregys.

O ran coed ffrwythau, efallai y bydd rhai eisiau gwahanol fathau o siapau gwyntyllaidd ac mae'r rhain yn cael eu cynhyrchu drwy glymu canghennau wrth gansenni i ffurfio'r siâp gwyntyllaidd a ddymunir. Gall hwn gymryd hyd at 5 mlynedd i'w greu.

Yr adeg orau i docio yw'r hydref gan y bydd rhai coed yn gwaedu os ydynt yn cael eu docio yn y gwanwyn pan fydd y nodd yn codi. Mae hyn yn wir am bob un ar wahân i eirinwydd – ddiwedd y gwanwyn yw'r adeg orau i docio'r rhain.

Gyda choed sydd â siâp gwael y peth gorau yw eu docio'n gynnar a pheidio â bod ofn dechrau o'r dechrau. Hynny yw, dylech eu docio'n ôl i le rydych chi eisiau cangen i fod. Hefyd, tociwch ganghennau fertigol, hyd yn oed os yw hyn yn golygu tynnu allan llawer o'r goeden, oherwydd os na fyddwch chi'n gwneud hynny, yr un hen ganghennau gwael fyddan nhw ym mhen blwyddyn ond yn fwy.

Yn aml, mae coed addurnol yn cael eu gwerthu gyda changhennau'r holl ffordd i fyny'r boncyffion; gall hyn fod yn andwyol i effaith coed fel y fedwen wen neu'r fasarnen rhisgl neidr.

**Llwyni** Mae hyn ychydig yn fwy cymhleth oherwydd y gellir docio llwyni er mwyn eu siapio ac am resymau marchnata. Fel rheol, mae llwyni sy'n blodeuo'n gynnar yn cael eu docio ar ôl blodeuo er mwyn iddynt gael amser i ymsefydlu a ffurfio blagur at y gwanwyn. Fel arfer, mae'r blagur hyn yn cael eu ffurfio yn yr hydref. Yn y grŵp hwn ceir clychau aur, *wiegelia*, deutsia, camelia a mahonia. Os yw'r rhain yn cael eu docio'n ôl yn galed, yn aml maent yn dod yn dyfiannol ac yn tyfu'n gyflym iawn gydag egin dŵr hir a syth na fydd yn cynhyrchu llawer o flodau, felly peidiwch â'i gorwneud hi. Mae hyn yn arbennig o wir am gnydau gwarchodedig lle y bydd planhigion yn tyfu canghennau ochrog sydd ymhell dros fetr cyn i'r blodau ymddangos.

Dywedir bod rhai planhigion megis camelia ac asalea yn troi'n arian wrth dyfu oherwydd bod planhigyn mawr yn werth mwy nag un bach, felly mae'r rhain yn cael eu docio i'w tacluso.

Mae planhigion sy'n blodeuo o hyn allan (y diwrnod hiraf) yn aml yn blodeuo ar bren newydd sydd wedi tyfu ers y gaeaf, er enghraifft planhigion fel hocyswydd, coed mêl a rhosod.

Os bydd coed mêl mewn cynhwysyddion yn cael eu torri'n ôl yn galed ar ddechrau mis Mawrth, byddant yn blodeuo tua'r adeg yma ond yn aml, byddant yn fawr ac yn heglog iawn ac yn chwythu drosodd o hyd. Felly, mae'n well torri'r rhain ychydig yn hwyrach neu dorri rhai ynghynt nac eraill fel y bydd y rhai sydd wedi'u docio'n gynnar yn blodeuo ym mis Mai a'r rhai sydd wedi'u docio yn hwyrach yn blodeuo ym mis Mehefin a Gorffennaf. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfle i chi werthu. Mae rhosod yn tueddu i flodeuo'n is os ydynt yn cael eu docio yn galed yn null y 'cyngor', felly eto, tociwch rai'n galed a rhai'n ysgafn, fel y bydd y cyntaf yn blodeuo'n is a'r olaf yn uwch os bydd eu hangen ar gyfer cefn border neu fel dringwr er enghraifft.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu  
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development: Europe Investing in  
Rural Areas



Centre for Alternative Land Use  
Canolfan Defnydd Tir Amgen



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# TOCIO A SIAPIO

## GYDA CHRIS CREED

**FFEITHLEN CALU**  
Mehefin 2011  
Cyf: 020802



Mae blodau trilliw ar ddeg yn anos oherwydd os ydynt wedi tyfu'n heglog yn ystod y tymor blaenorol, yna bydd unrhyw docio ar ôl y gaeaf yn lleihau nifer y blodau, felly tyfwch a siapiwch y planhigion hyn yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer planhigion fel y llosgddraenen lle y bydd blodau a'r aeron dilynol yn cael eu tocio i ffwrdd, gan ei gwneud hi'n anos i'w gwerthu. Tociwch y rhain o gwmpas mis Awst y flwyddyn flaenorol fel y bydd y tyfiant newydd yn profi diwrnodau sy'n byrhau gan gychwyn ar ffurfio blodau. Gyda blodau trilliw ar ddeg a llawer eraill o'r math yma, mae oerni yn y gaeaf yn ysgogi blodeuo.

**Leinars** Mae'n rhaid tocio'r rhain yn galed er mwyn cael y planhigion trwchus sydd eu hangen arnon ni. Y peth gorau yw tocio'r rhain â pheiriant torri gwrych fel y maent i gyd yr un uchder a'r batshys yn gyfartal. Os nad oes peiriant torri gwrych ar gael (mae'n arbed llawer o amser yn enwedig os oes hambwrdd dal dail wedi'i osod arno) dywedwch wrth y staff am "un dwrn neu ddau" ac yn y blaen. Mae siâp da'n dechrau yma ac mae'n fwy anodd o lawer i'w gael yn nes ymlaen yn y broses.

**Llysieuol** Ddim yn hawdd gan fod rhai o'r rhain yn dal iawn. Mae rhai o'r mathau fel blodau haul yn tyfu'n hawdd hyd at 2m ac yn addas ar gyfer cefn y border, ond mae'n anodd eu marchnata gan fod golwg wael arnynt mewn potiau ac maen nhw'n cwmpo wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu cymdogion. Yma, dylech geisio gwerthu planhigion bach, heb flodau, ond mae hyn yn dibynnu ar brynwyr gwybodus neu label da. Mae planhigion parhaol yn nodwedd o forderi mwy felly mae galw amdanynt nhw a bydd eu tocio yng nghanol y tymor yn arwain at lai o flodau neu ddim blodau o gwbl felly, mae'n benderfyniad anodd.

Mae hwn yn gyfyng-gyngor yn y diwydiant ac nid oes ateb mewn gwirionedd. Bydd hyd yn oed rheolyddion tyfiant yn cynhyrchu ffurf fyrrach na fydd yn debyg i olwg y gwir blanhigion yn y dyfodol.

Fel arall, torrwrch yn ôl i'r ddaear neu wyneb y pot ym mis Ionawr – Chwefror gan y gall y deiliant inswleiddio'r corunau mewn gaeaf caled.

**Coed bytholwyrdd** Gellir siapio conwydd ym mis Awst y flwyddyn flaenorol; os ydych yn gwneud hyn yn hwyrach, gall y tyfiant anaeddfed newydd arwain at niwed yn y gaeaf. Dyma'r adeg orau i'r rhan fwyaf o goed bytholwyrdd ond bydd rhai'n tyfu eto. Gydag unrhyw ffurfiau cyfyngedig fel tocwaith, mae'n well tocio ychydig ac yn aml i sicrhau trwch y dail.

**Gwrychoedd** Mae'n well tyfu'r rhain yn ddau ddimensiwn drwy eu torri i fyny'r ochrau ond gadael iddynt dyfu'n dal, oherwydd bod y rhan fwyaf o gwsmeriaid eisiau gwrych cyflym. A dweud y gwir, gallwch bellach brynu gwrychoedd parod mewn cafnau sy'n cael eu gollwng mewn gerddi – masnach sy'n tyfu yw hon. Mae yw a chonwydd eraill yn edrych yn well o lawer os ydynt yn cael eu clipio fel hyn, gan nad ydynt yn edrych yn iawn heb eu tocio ac mae'r amatur yn ei chael hi'n anodd dechrau siapio gwrych. Mae gwrychoedd cyflym a dyfir mewn caeau'n tueddu i gael eu gwerthu ar sail uchder yn unig, felly does dim cymaint o bosibiliadau gyda'r rhain.

**Rheolyddion tyfiant.** Tocwyr cemegol sy'n dwtsh bach yn slei yw'r rhain ond byddant yn hyrwyddo trwch y dail a blodeuo ac yn lleihau uchder. Fodd bynnag efallai y bydd angen ychydig o arbrofi. Y prif rai yw Cycocel, Bonzi, Dazide a Regalis. Defnyddir y rhain yn helaeth gyda phlanhigion unflwydd i'w plannu allan ond yn llai gyda choed a llwyni, yn bennaf oherwydd traddodiadau. Gallant fod yn effeithiol iawn gyda phlanhigion dringo.

Chris Creed ADAS Mehefin 2011

[chris.creed@adas.co.uk](mailto:chris.creed@adas.co.uk)



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu  
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development: Europe Investing in  
Rural Areas



Centre for Alternative Land Use  
Canolfan Defnydd Tir Amgen



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government